# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

**Dyddiad y cyfarfod: 14 Chwefror 2023**

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dyfrig Siencyn a Cynghorydd Nia Jeffreys**

**Swyddog Cyswllt: Sioned Williams**

**Rhif Cyswllt: 01286 679547**

**Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELODAU CABINET ECONOMI A CHYMUNED**

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru ein cyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr ydym yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelodau Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

**2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 (Blaenoriaethau Gwella)**

**Prosiect 1: Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru**

2.1 Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn sicrhau fod deilliannau yn cael eu cyflawni i Wynedd. Gweler **Atodiad 1** sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf.

2.2 Ers mis Hydref, mae'r cynnydd sylweddol mewn cost cynlluniau wedi effeithio ar rhai o'r cynlluniau, gyda pob prosiect yn gorfod adolygu ac addasu cyn symud ymlaen gyda'u cynlluniau manwl. Gwelwyd cynnydd da yn Cynllun Parc Bryn Cegin Bangor gyda Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei gytuno ar gyfer datblygu'r safle.

2.3 Ond mae 3 cynllun bellach, sef datblygiad safle Bodelwyddan, datblygiad Llysfasi a Canolfan Egni Prifysgol Bangor wedi cadarnhau na fyddent yn symud ymlaen fel prosiectau Cais Twf. Golygai hyn fod £30miliwn o'r gronfa heb ei glustnodi. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno ar drefniadau i adnabod prosiectau trawsnewidiol newydd fydd yn cyfrannu i'r targedau heriol sy'n

rhan o'r Cais ar gyfer creu swyddi newydd yn y rhanbarth a denu buddsoddiad gan y sector breifat.

**Prosiect 2: Creu Swyddi Gwerth Uchel**

2.4 Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o weithgaredd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer creu gwaith sy'n talu'n dda a pharatoi disgyblion ysgolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleodd.

2.5 Mae'r cynllun STEM Gogledd, sydd yn paratoi ein pobl ifanc i fanteisio ar swyddi mewn meysydd gwyddonol, technolegol a pheirianneg wedi sicrhau estyniad i'w gyfnod gweithredu hyd at ganol 2023. Ymhlith yr uchafbwyntiau diweddar, mae ymweliadau i Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd wedi eu cynnal i ddisgyblion ysgolion Meirionnydd i dynnu sylw at y cyfleon gwaith sydd ar gael yno.

2.6 Mae'r gwaith o ddiogelu a chreu swyddi newydd ar safle Trawsfynydd a Llanbedr hefyd wedi parhau. Rhaid nodi siom na fu ein cais i Lywodraeth y DG ar gyfer gwella'r mynediad i faes awyr Llanbedr yn llwyddiannus a byddwn yn parhau i drafod gyda'r ddau Lywodraeth i gytuno ar ffordd ymlaen.

2.7 Mae'r prosiect wedi llwyddo i sicrhau £450,000 o grant i gefnogi busnesau lleol i adfer, i gefnogi trigolion i waith ac i baratoi'r ffordd ar gyfer sicrhau fod pobl a busnesau Gwynedd yn elwa o fuddsoddiadau arfaethedig yn Nhrawsfynydd a Llanbedr

2.8 Mae adnoddau'r tîm prosiect yma hefyd yn parhau i gael ei gyfeirio yn rhannol at gefnogi ymdrechion i sefydlu cyfundrefn a chynigion ar gyfer buddsoddiad Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG (yr UK Shared Prosperity Fund) ar gyfer Gwynedd a Gogledd Cymru. Bydd y gwaith yn arwain at fuddsoddiad sylweddol yng Ngwynedd, ond rhaid nodi yn y tymor byr fod gwaith sylweddol i'w wneud i sefydlu trefniadau llywodraethu, rheoli a gweinyddu.

**Prosiect 3: Arloesi Gwynedd Wledig**

2.9 Mae'r rhaglen yn gweithio i gryfhau seiliau'r economi wledig drwy ystod o ymyraethau yn cynnwys cefnogi datblygu isadeiledd digidol y sir, helpu busnesau gwledig i sefydlu a thyfu a chefnogi mwy o arloesedd yng nghefn gwlad Gwynedd.

2.10 Ar 10 Hydref 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y bydd £11 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer ail wedd ARFOR hyd at ddiwedd Mawrth 2025 (gellir darllen y cyhoeddiad yma). Bydd y rhaglen yn parhau i weithredu ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr, er mwyn cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Bydd y rhaglen yn gwireddu pum ffrwd gwaith i helpu i gyflawni'r nod a gellir darllen mwy o fanylion yma.

2.11 Mae'r cynllun Platfform Digidol yn mynd o nerth i nerth, gyda 66 o fusnesau lleol eisoes wedi cychwyn elwa o'r cynllun a datblygu eu defnydd o dechnoleg drwy fynychu sesiynau hyfforddiant arbenigol, a derbyn cefnogaeth mentoriaid digidol i ddatblygu eu busnes.

2.12 Mae'r tîm prosiect yn parhau gyda'u hymdrechion i ddenu £1.7M gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu'r economi cylchol yng Ngwynedd, fydd yn dod a manteision economaidd ac amgylcheddol i'r sir. Os yn llwyddo bydd y ceisiadau yn sicrhau buddsoddiad ar gyfer pecyn o

weithgareddau, gan gynnwys Hwb Dadgarboneiddio Adra Cyf. ym Mhenygroes a chefnogaeth bellach i'r rhwydwaith o ofod gwneud - dan y faner Ffiws - sydd wedi eu sefydlu ledled Gwynedd i gynyddu mynediad trigolion a busnesau i offer.

2.13 Bydd y Rhaglen Ewropeaidd LEADER sydd yn cyllido Arloesi Gwynedd Wledig yn dod i ben yn Mehefin 2023. Mae'r Adran yn gweithio'n agos gyda Menter Môn sydd yn gweinyddu LEADER yng Ngwynedd i ymchwilio i gyfleoedd i barhau'r gwaith drwy law ffynonellau megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Mae gwybodaeth am ystod ac effaith gwaith Arloesi Gwynedd Wledig i'w weld yma.

**Prosiect 4: Hyrwyddo Canol Trefi**

2.14 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Yn sgil newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae gofyn gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cynlluniau canol tref ar gyfer pob tref. Mae'r ffocws y misoedd diwethaf wedi bod ar baratoi briffiau, sicrhau cyllideb a dilyn y prosesau caffael ar gyfer comisiynu Cynlluniau Canol Trefi ar gyfer Bangor, Caernarfon, Bala, Pwllheli a Porthmadog. Eisoes sicrhawyd cyllideb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Bangor, Caernarfon ac Y Bala. Rhagwelir y bydd cyfle i gyflwyno ceisiadau ar gyfer trefi eraill yn ystod 2023/24.

2.15 Cyflwynodd Cyngor Gwynedd geisiadau ariannol ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro (Levelling Up Fund) Llywodraeth DU. Datblygwyd a chyflwynwyd cais ar gyfer canol dinas Bangor, yn ymgorffori datblygiadau megis Canolfan Iechyd a Lles, Gwelliannau Glannau Bae Hirael a chysylltiadau gwyrdd, a datblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru (Gwedd 1). Derbyniwyd cadarnhad 19 Ionawr na fu'r cais, oedd yn cynnwys buddsoddiad o tua £40m, yn llwyddiannus. Bydd yn ofynnol cydweithio gyda'r holl bartneriaid i adnabod posibiliadau amgen i weithredu'r cynlluniau.

2.16 Penodwyd Rheolwr Adfywio (Rhaglen Adfywio Bangor) fis Tachwedd 2022. Bydd y rôl yn cydlynu a chefnogi ymdrechion adfywio ym Mangor gan ganolbwyntio ar gynlluniau yng Nghanol y Ddinas a'r Stryd Fawr yn benodol.

2.17 Mae Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol wedi ei sefydlu, sy'n dwyn ynghyd gwahanol wasanaethau sydd yn delio gyda eiddo gwag. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi, ynghyd â rhestr blaenoriaeth eiddo gwag. Mae'r gwaith yn parhau i adnabod eiddo gwag o fewn y Sir ac adnabod sbectrwm o ymyraethau gweithredol, sydd yn cynnwys gwybodaeth a chyngor, darparu gwybodaeth technegol, cefnogaeth ariannol (grantiau a benthyciadau), bygythiad camau gorfodaeth, adennill dyledion ac achosion gorfodaeth ffurfiol, a allai fod yn addas fel datrysiad i wella edrychiad neu i ddod a'r eiddo yn ôl i ddefnydd.

**Prosiect 5: Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith**

2.18 Bellach mae dros 18 mis wedi mynd heibio ers i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Y flaenoriaeth yn awr i'r Cyngor a'i bartneriaid yw sicrhau'r buddion mwyaf i gymunedau a busnesau a rheolaeth gynhwysol o'r Safle Treftadaeth Byd. Dros y misoedd diwethaf mae strwythur gweithredu newydd wedi ei gytuno a'i roi ar waith fel bod pob partner, cymuned a budd-ddeiliaid ehangach yn cyfrannu at weithredu a datblygu ein Safle. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cyntaf y safle ym Mis Hydref, ac mae adroddiad blynyddol bellach wedi ei chyhoeddi ar wefan Llechi Cymru.

2.19 Fel dilyniant i lwyddiant prosiect LleCHI, mae Gronfa Loteri Treftadaeth Genedlaethol wedi cymeradwyo cais gwerth £128,000 ar gyfer cyfnod datblygu cynllun newydd. Mae Swyddog Prosiect wedi ei phenodi i'r swydd ers fis Rhagfyr, a gwaith yn mynd rhagddi i lunio blaenoriaethau y cyfnod datblygu a chreu cysylltiadau gyda partneriaid a rhanddeiliaid. Fe fydd y cyfnod datblygu yn arwain at gyfle i gyflwyno cais am dros £1m i Gronfa Loteri Treftadaeth Genedlaethol ar gyfer cynllun i ddatblygu perchnogaeth cymunedau o'u treftadaeth, hyrwyddo balchder a diwylliant ein broydd llechi a dehongli ein treftadaeth i bawb.

2.20 Llwyddodd y Cyngor i sicrhau £150,000 o gyllid trwy Cadw, Llywodraeth Cymru i weithredu camau cyntaf ein Strategaeth Ddehongli. Mae cyfres o deithlenni treftadaeth yn cael eu datblygu, yn ogystal a chynllun dehongli sylweddol ar draw prif safleoedd llechi yr ardal. Rydym hefyd wedi dosbarthu placiau llechen '*yn falch o fod yn rhan o'r Safle Treftadaeth y Byd'* i brif bartneriaid y safle, a sticeri '*yn falch o gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd'* i fusnesau'r ardal.

2.21 Derbyniwyd dyfarniad ffafriol gan Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain ar 19 o Ionawr. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar 3 ardal o'r Safle – Bethesda, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog a bydd y cynllun yn gwella cysylltiadau rhwng y cymunedau a'r chwareli, gwella dehongli a pherchnogaeth ac yn arwain at welliannau trefol. Gwerth y cynllun yw £26m, gyda £18.8m o grant yn dod trwy law Llywodraeth Prydain. Bydd manylion llawn y cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor gyda'r bwriad o lunio gweithdrefnau llywodraethu y cynllun yn dilyn hyn.

2.22 Mae UNESCO yn cynnal adolygiad cyfnodol o bob Safle Treftadaeth y Byd yn ei dro, eleni, mae'r cylch adolygu yn disgyn ar safleoedd Ewrop a Gogledd America sydd yn golygu fod hi'n angenrheidiol i ni gyflwyno holiadur manwl am weithgarwch y safle i'r UK National Commisson erbyn diwedd Mis Mawrth, ac yna i UNESCO erbyn diwedd Mis Mai 2023.

**Prosiect 6: Twristiaeth – Llunio Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy**

2.23 Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddi ers blynyddoedd bellach i sefydlu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i Wynedd ac Eryri. Rydym wedi craffu arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol ar eu Cynlluniau Economi Ymweld Cynaliadwy gan gynnwys sut mae mesur effaith. Cawsom hefyd arweiniad gan arbenigwyr rhyngwladol mewn twristiaeth cynaliadwy.

Yn dilyn nifer fawr o sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, cynghorwyr, aelodau lleol, busnesau a chymunedau; fe gyflawnwyd y canlynol:

- Cyrraedd dros 250 o gynrychiolwyr
- Ysgogi dros 1,500 o sylwadau gan fynychwyr
- Ymgysylltu efo 14 ardal o Wynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Cyrraedd dros 100 o sefydliadau cyhoeddus, cyrff neu fusnesau unigol
- Dros 4,490 wedi derbyn gwybodaeth a gwahoddiad i gyfrannu yn y digwyddiadau trwy Fwletin Busnes Cyngor Gwynedd

2.24 Bellach mae strwythur gweithredu wedi ei ffurfio rhwng y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn datblygu a gweithredu'r Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Partneriaeth a Grŵp Gweithredu. Sefydlwyd hefyd Grŵp Tasg a Gorffen gyda rhanddeiliaid allweddol o'r sector twristiaeth, cymunedau Gwynedd a'r sector cyhoeddus ac addysg er mwyn derbyn sylwadau ar drywydd y Cynllun. Mae Cyngor Conwy hefyd yn mynychu ein cyfarfodydd. Bellach mae Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu a Mesuryddion Effaith drafft i gyd mewn lle.

2.25 Bwriedir cyflwyno'r holl ddogfennau i'r Cabinet am benderfyniad yn ystod eu cyfarfod ar 14 Chwefror 2023 er mwyn lansio'r Cynllun yn ffurfiol yn ystod y Gwanwyn 2023. Nid oes unrhyw ardal arall o Gymru'n datblygu Cynllun i'r un graddau ag sy'n digwydd yng Ngwynedd ac Eryri ac rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun yn torri tir newydd ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy. Un o'n prif dasgau cychwynnol fydd sefydlu Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri a fydd yn arwain ar weithredu'r Cynllun newydd trwy fabwysiadu Cynllun Gweithredu wedi' flaenoriaethu yn ogystal â mesuryddion cynhwysol a pherthnasol i fesur effaith yr economi ymweld ar Wynedd ac Eryri.

**Prosiect 7: Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu**

2.26 Mae busnesau'r sir yn parhau i fod dan straen o ganlyniad i gynnydd yng nghostau, lleihad yng ngwariant cwsmeriaid a'r heriau o recriwtio a chynnal gweithlu yn parhau.

2.27 Rydym yn cynnal ein ffocws ar sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Cyngor a sefydliadau eraill, gan roi sylw arbennig i gyngor a chymorth yn gysylltiedig â lleihau gorbenion. Cynhaliwyd seminar ar y we i'r perwyl o rannu arfer da yn y maes gan yr Adran ym mis Tachwedd (mae'r deunydd o'r digwyddiad ar gael yma)

2.28 Mae'r tîm yn paratoi i lansio cronfa cefnogi busnes newydd yn y dyfodol agos gan ddefnyddio arian o ffynonellau allanol megis Cronfa Ffyniant y DG a'r rhaglen ARFOR i helpu ein busnesau i oresgyn a datblygu i'r dyfodol.

2.29 Mae newid strwythurol o fewn y tîm cefnogi busnes yn ddiweddar o ganlyniad i ymddeoliad arweinydd y tîm - mae hyn wedi golygu ail-drefnu ac ailstrwythuro'r dros dro, gyda swyddi yn wag am gyfnodau, sydd wedi cael ardrawiad ar allu a capasiti yn y tymor byr, yn arbennig gan fod sylw ac ymdrech sylweddol wedi ail gyfeirio ar hyn o bryd i sicrhau fod y trefniadau priodol yn cael eu sefydlu ar gyfer gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Prosiect 8: Pobl Gwynedd yn Chwarae Rhan lawn yn y Byd Gwaith**

2.30 Mae cyflogwyr yn parhau i adrodd eu bod yn wynebu heriau recriwtio, sydd yn llesteirio eu gallu i uchafu eu hincwm. Yn gyfochrog, mae'r pwysau o ran cynnydd yng nghostau yng nghostau rhoi llawer o fusnesau o dan straen ac mae risg all hyn arwain, yn ei dro, at rai busnesau yn methu.

2.31 Mewn ymateb, mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor yn gweithio i sicrhau fod cynifer â phosib o bobl Gwynedd yn rhan o'r farchnad llafur a hefyd - yn gynyddol - helpu trigolion sydd yn gweithio i gynyddu eu sgiliau

2.32 Mae rhaglen o ffeiriau swyddi eisoes ar waith yn barod at y gwanwyn gyda 4 ffair ar hyd y sir eisoes wedi eu trefnu a dau arall ar y gweill. Yn gyfochrog, mae'r gwaith i helpu pobl i ddychwelyd i waith yn parhau 107 wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r cymorth maent wedi ei dderbyn hyd yn hyn eleni (Ebrill i Ragfyr 2022). Mae arian ar gyfer swydd newydd i gefnogi trigolion i gynyddu eu henillion hefyd wedi ei sicrhau.

2.33 Dylid nodi y bydd un o'r rhaglenni sydd yn cyllido'r tîm Gwaith Gwynedd - Cymunedau i Waith - yn dod i ben yn y dyfodol agos gan ei fod wedi'i gyllido gan arian Ewrop. Mae trefniadau mewn

lle i sicrhau bydd ardrawiad hyn yn cael ei leihau, gan gynnwys cynnydd yn y cyllid sydd yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

**Prosiect 9: Llunio Cynllun Adfywio ar gyfer ein Hardaloedd**

2.34 Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer Gwynedd yn parhau. Rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf eleni, bu i'r Cyngor drefnu rhaglen ymgysylltu 'Ardal Ni 2035' er mwyn ceisio barn a thrigolion ar flaenoriaethau lleol. Derbyniwyd dros 3,600 o holiaduron sydd wedi eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae adroddiadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol wedi eu paratoi er mwyn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd.

2.35 Yn ystod mis Medi a Hydref 2022, trefnwyd gweithdai gyda sefydliadau lleol ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Pwrpas y gweithdai oedd adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith ymgysylltu, gan roi sylw i flaenoriaethau lleol. Roedd y gweithdai hefyd yn gyfle i ystyried a thrafod prosiectau lleol a chychwyn ar y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu.

2.36 Cam nesaf o'r broses fydd i baratoi cynlluniau adfywio lleol (drafft) ar gyfer pob ardal unigol. Mae hyn eisoes ar waith, gyda'r bwriad o gael cynlluniau drafft mewn lle erbyn diwedd Chwefror / cychwyn mis Mawrth. Byddwn hefyd yn trefnu cyfres o weithdai pellach yn yr ardaloedd lleol er mwyn ystyried a thrafod y cynlluniau gweithredu drafft.

## 3. PERFFORMIAD GWASANAETHAU'R ADRAN

3.1 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn cael ei adolygu yn rheolaidd. Yn yr Adroddiad Herio Perfformiad diwethaf i'r Cabinet mis Hydref, fe adroddwyd ar adferiad a perfformiad y Gwasanaeth Morwrol, Byw'n Iach a'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Cabinet i faterion sy'n effeithio ar berfformiad y gwasanaethau canlynol tro hwn:

**Gwasanaeth Adnoddau Hamdden**

3.2 Yn sgil cwynion am effaith gormodedd o ymwelwyr i ardal Y Glyn ym Mharc Gwledig Padarn, mae werth nodi fod cais am arian grant i ail wynebu'r maes parcio wedi bod yn llwyddiannau a mae'r gwaith wedi cychwyn yno mis Tachwedd. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn Ebrill 2023 a'r gobaith ydi y bydd gwell rheolaeth ar y safle ar gyfer tymor yr haf.

3.3 Mae lefel defnyddwyr Canolfannau Byw'n Iach yn parhau i fod yn is na'r cyfnod cyn COVID. Roedd perfformiad am y chwarter diwethaf 22,243 yn well na 2021/22 ond yn 71,691 yn waeth na 2019/20. Mae rhai materion penodol wedi effeithio ar y ffigyrau, yn cynnwys cau pwll Arfon am 3 mis i adnewyddu'r to, gorfod cau cyrtiau 5 bob ochr Arfon cyn yr haf a dal heb gael dyddiad i'w hail agor. Bu rhaid cyfyngu oriau agor Pwll Bangor yn y boreau am 3 mis oherwydd diffyg staff. Mae trafodaethau cyson rhwng Cwmni Byw'n Iach a'r Cyngor er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn sydd yn effeithio ar incwm y Cwmni

**Hafan Pwllheli**

3.4 Mae Hafan Pwllheli yn parhau i fod yn llawn ac mae'n galonogol fod dros 140 ar rhestr wrth gefn hyd at ddiwedd Rhagfyr 2022. Ond mae risg ar hyn o bryd oherwydd cynigion ffafriol marinas eraill yn yr ardal a dim penderfyniad hyd yma ar ffioedd Gwynedd. Mae nifer ar y rhestr fer yn ystyried symud gan fod telerau yn fwy ffafriol gan eraill. Fel arfer, disgwylir trosiant rhwng 10% i 15% o gwsmeriaid bod blwyddyn, ac felly'n bwysig ein bod yn denu cwsmeriaid newydd.

3.5 Yr un pryd, mae lleihad yn y nifer cwsmeriaid angorfeydd yn Harbwr Pwllheli a hynny yn bennaf gan fod anghenion cwsmeriaid yn newid. Ymddengys fod rhai wedi trosglwyddo i'r Hafan, tra fod eraill, gan gynnwys masnachwyr/pysgotwyr, wedi rhoi gorau i gadw cwch yn sgil cynnydd costau byw.

**Archifau Gwynedd**

3.6 Mae bodlonrwydd cwsmer yn cael ei fesur yn rheolaidd gan y Gwasanaeth Archifau ac mae'r perfformiad yn gyson uchel. Ond mae werth nodi fod gostyngiad yn y canran bodlonrwydd chwarter diwethaf a hynny gan fod Archifdy Caernarfon yn parhau i fod ar gau. Mae'r Archifdy wedi bod ar gau yn sgil gwaith ailweirio ac mae'r amserlen wedi llithro yn sylweddol, ac felly gallwn ddeall fod defnyddwyr am fynegi eu hanfodlonrwydd. Yn ogystal, yn sgil y llithriad mae'r Gwasanaeth wedi colli incwm gan nad oedd modd i'r Swyddog Cadwraeth dderbyn gwaith gan unigolion a sefydliadau, ac hefyd nid yw hi wedi bod yn bosib i'r Gwasanaeth dderbyn casgliadau sylweddol gan sefydliadau fel y Gwasanaeth Llysoedd a Swyddfa'r Crwner. Bellach mae amserlen mewn lle ar gyfer rhan olaf y gwaith, ac yr ydym yn gobeithio ail agor ym mis Ebrill. Yn y cyfamser mae staff yn parhau i ymateb i ymholiadau a rhoi mynediad drwy gynnig llungopïau neu chwilota ar ran defnyddwyr.

**Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

3.7 Mae'r nifer sy'n ymgysylltu gyda'r Amgueddfeydd a'r Orielau wedi gostwng dros y cyfnod diwethaf yn sgil y ffaith bod arddangosfa Storiel ac Amgueddfa Lloyd George wedi gorfod cau yn ddirybudd. Bu rhaid cau arddangosfa Storiel mis Tachwedd yn dilyn damwain lle bu i ddrysau cwpwrdd arddangos gwydr ddymchwel. Mae'r gwaith atgyweirio yn digwydd diwedd mis Ionawr a'r gobaith ydi y bydd wedi ail agor erbyn dechrau mis Chwefror. Bu damwain yn Amgueddfa Lloyd George mis Rhagfyr wedi i ran o'r nenfwd ddisgyn wedi i bibell ddŵr dorri yn y nenfwd. Mae'r adeilad wedi ei wagio ac yn cael ei sychu, ond ni ragwelir bydd yn gallu ail agor tan mis Mehefin yn dilyn y gwaith atgyweirio.

**Neuadd Dwyfor**

3.8 Ers i Neuadd Dwyfor agor ar ei newydd wedd Mawrth 2022 rydym wedi holi ein cwsmeriaid yn fisol ac mae'r gyfradd bodlonrwydd at ei gilydd rhwng ffigwr isaf o 82% a'r uchaf yn 95%. Yn mis Tachwedd cafwyd ffigwr 88%, sef 79 yn hapus a 10 yn anhapus allan o 89 ymateb. Roedd 8 o'r sylwadau negyddol am drefniadaeth y sioe Go Brin – Tudur Owen. Dyma sioe hynod lwyddiannus oedd yn cael ei ffilmio gan S4C a gwerthwyd pob tocyn. Dysgwyd nifer o wersi o'r noson hon, yn enwedig o ran llif torf, ac mae'n bosib bydd rhaid agor gofod y llyfrgell er mwyn i'r cyntedd fod yn ofod mwy cyfforddus. Roedd gofynion teledu yn golygu nad oedd rheolaeth gennym dros pryd roeddem yn gallu agor y drysau wnaeth arwain at giwio ar y grisiau. Roedd sylwadau hefyd am ddiffyg staff i weini diodydd, ond yn anffodus doedd dim mwy o staff ar gael ar gyfer y noson hon gyda pawb oedd ar gael yn gweithio. Fodd bynnag, mae'r sylwadau rydym yn gael o help mawr i ni geisio gwella'r profiad i gwsmeriaid I'r dyfodol. Yn mis Rhagfyr dywedodd 95% eu bod yn hollol fodlon gyda'r gwasanaeth.

**Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

3.9 Datblygwyd Cynllun Llysgennad Gwynedd i wreiddio'r egwyddorion ymweld newydd ac i fod yn adnodd gwybodaeth i drigolion, busnesau a myfyrwyr sydd eisiau dysgu mwy am yr ardal. Hyd yma mae 186 wedi cofrestru gyda 73% o'r unigolion yn hanu o Wynedd. Mae 90 wedi cyrraedd lefel efydd ac wedi cwblhau tri neu fwy o fodiwlau yn llawn.

3.10 Ers mis Ebrill 2022 mae'r gwasanaeth wedi cefnogi 23 digwyddiad yng Ngwynedd, ond fe gafodd 2 o'r digwyddiadau hyn eu canslo. Mae 100% o'r 21 trefnydd digwyddiadau wedi nodi eu bod yn fodlon neu fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a'r gefnogaeth gan Cyngor Gwynedd. Hyd yma adroddir fod budd o oddeutu £5,834,862 miliwn i'r ardal o'r digwyddiadau hyn. Mae 99,625 wedi mynychu'r digwyddiadau a 16,544 wedi cymryd rhan / cystadlu yn y digwyddiadau. Mae adroddiadau ôl-ddigwyddiad y trefnwyr yn dangos fod 270 cwmni o Wynedd wedi elwa yn uniongyrchol o'r gweithgaredd a drefnwyd. Hyd at ganol Ionawr 2023 mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i 47 ymholiad gan drefnwyr digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Datblygu'r Economi**

3.11 Hyd yn hyn mae 66 o fusnesau wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol yn 2022/23, cynnydd o 34 ers y cyfarfod herio diwethaf. Mae'r nifer yn adlewyrchu'r cronfeydd ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd.

3.12 Hyd yn hyn mae 107 o bobl Gwynedd wedi cael swydd yn dilyn derbyn cefnogaeth uniongyrchol yn ystod 2022/23, gyda 28 wedi eu hychwanegu i'r cyfanswm yn cyfnod ers y cyfarfod herio diwethaf. Mae'r cyfanswm yn adlewyrchu'r adnodd sydd ar gael a'r grŵp targed ar gyfer y gwaith.

3.13 Mae ymdrech a sylw sylweddol gan y Gwasanaeth wedi ei gyfeirio ar hyn o bryd tuag at sefydlu'r trefniadau'n sirol ar gyfer gweinyddu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UKSPF) yng Ngwynedd ynghyd â rheoli'r ar gyfer rhanbarth y Gogledd ar ran y chwe sir (wele adroddiad i Cabinet 24 Ionawr 2023 - yma). Mae hyn, yn ei dro, wedi cyfyngu ar yr addodau ar gael i roi sylw i faterion eraill o fewn y Gwasanaeth.

3.14 Mae cyfle pwysig i Gyngor Gwynedd ymgeisio i'r UKSPF a fydd hyn yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth - a'r Adran yn ehangach - yn y misoedd i ddod.

3.15 Mae cryn newid strwythurol o fewn y Gwasanaeth yn ogystal, gydag un uwch swyddog allweddol wedi ymddeol ac un arall wedi secondio am y tro i arwain y Rhaglen ARFOR yn rhanbarthol. Mae hyn wedi golygu ail-drefnu ac ailstrwythuro'r Gwasanaeth dros dro, gyda swyddi yn wag am gyfnodau. Mae hyn, eto, yn amharu ar allu'r Gwasanaeth.

**Rhaglenni Adfywio**

3.16 Gwaith paratoi cynlluniau adfywio canol trefi yn drawsadrannol yn parhau er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau'r Fframwaith Adfywio.

3.17 Cyllid datblygol wedi ei ddiogelu drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio Cynllun Canol Trefi i Bala gyda cais hefyd wedi ei gyflwyno ar gyfer diweddaru cynllun Bangor i gyd-fynd a gofynion Llywodraeth Cymru.

3.18 Cynllun Bywiogi Bangor ddim wedi derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Prydain ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro. Byddwn yn cyfarfod efo partneriaid yn fuan er mwyn adnabod yr opsiynau a chyfleon wrth symud ymlaen efo'r ffrydiau gwaith yn y ddinas i'r dyfodol.

3.19 Cynllun Llewych o'r Llechi a gyflwynwyd i Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r pecyn werth dros £26m ac mae agweddau cryf o'r cais yn cyfrannu tuag at adfywio canol trefi Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

**Cefnogi Cymunedau**

3.20 Rhwng Hydref a Rhagfyr cefnogwyd 121 o grwpiau a mentrau yn cynnwys cyngor i neuadd gymunedol Grandolbenmaen i adnabod ffynonellau ariannu er mwyn uwchraddio y ganolfan, cyngor i grŵp cymunedol i ddatblygu cae chwarae Trefor, cyngor a chefnogaeth cychwynnol i griw o gymuned Bethel sy'n awyddus i ddatblygu caffi a siop cymunedol er budd y gymuned leol, cyngor i grŵp cymunedol Braich Goch Corris am grantiau prosiectau treftadaeth posib.

3.21 Mae'r nifer o brosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu yn ystod Hydref – Rhagfyr 2022 yn uwch na ffigyrau misoedd chwarter 1 a 2. Mae'r nifer o gronfeydd ariannu sydd ar agor ac yn addas ar gyfer diben y prosiect yn gallu dylanwadu ar nifer y prosiectau yr ydym yn eu cynorthwyo o fis i fis. Mae'r ffigyrau a adroddir arnynt yn ystod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr yn cynnwys nifer y grwpiau/ mentrau sydd wedi derbyn arian drwy gronfa Cymunedau Mentrus (CRF) i ddatblygu prosiectau. Cwblhawyd y prosiectau i gyd erbyn diwedd Rhagfyr. Fe elwodd 33 o grwpiau a mentrau cymunedol ar draws Gwynedd o'r gronfa gyda £357,313 wedi ei ddyrannu fel cymorth i ddatblygu'r prosiectau. Mae'r ffigyrau hefyd yn cynnwys nifer o grwpiau sydd wedi elwa o'r grant ar gyfer cynlluniau bwyd/sefydlu lleoliad croeso cynnes. Yn ystod y cyfnod Hydref-Rhagfyr mae 15 menter/ grŵp cymunedol wedi derbyn arian gefnogi prosiect bwyd/croeso cynnes oedd yn cael ei weinyddu drwy Cist Gwynedd. Mae enghreifftiau o'r prosiectau sydd wedi derbyn cymorth i'w datblygu yn cynnwys Clwb Rygbi Caernarfon i ddenu amryw o grantiau drwy Llywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Cist Gwynedd er mwyn uwchraddio Tŷ'r Clwb a gwelliannau i Adeilad Siop Siarad Nefyn.

## 4. SEFYLLFA ARBEDION

4.1 Mae gan yr Adran gynllun newydd oedd i fod i greu arbedion yn 2022/23, sef cynllun ail fodelu Neuadd Dwyfor £70,000. Bu i'r argyfwng Covid-19 arwain at oediad mewn gwireddu gwaith datblygu yn y Neuadd. Gyda'r gwaith adnewyddu yn parhau, mae'n anodd ar hyn o bryd i weld effaith hir dymor ar niferoedd fydd yn mynychu'r Neuadd. Mae'n amlwg fod yr argyfwng a'r cynnydd mewn costau byw, ynghyd â ffactorau eraill fel effaith ffurf newydd o wylio ffilmau, gyda nifer fawr o bobl yn disgwyl i ffilmiau gael eu rhyddhau ar y wê/teledu, yn codi pryder am ein gallu i weithredu'r arbedion yn llawn.

4.2 Mae 3 cynllun yn parhau o flynyddoedd blaenorol (cyfanswm o £105,000), gyda'r 3 yn amodol ar ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae trefniadau ar waith gan yr Adran Amgylchedd i wneud yr adolygiad ac felly mae'r amserlen i wireddu'r arbedion yn ddibynnol ar y gwaith yma. Nid yw'r amserlen yn wybyddus yn bresennol.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac mae cyfarfod arbennig o'r Tim Rheoli Adran wedi cael ei drefnu ar gyfer 16 Chwefror 2023, gyda cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bresennol.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid:**

"Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfaoedd ariannol yr Adran Economi a Chymuned."